Cofnodion cyfarfod12 Mawrth 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Iwan Huws	
Casi Roberts	Mei Gwilym	
Eifion Williams	Nerys John	
Iestyn Harris		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i Gyfarfod mis Mawrth y Cyngor.	
1.2	Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriadau oddi wrth, y Cynghorydd Gruff John, Cynghorydd Aled Emyr, Cynghorydd Elliw Williams a Chynghorydd Einir Coates.	
1.3	Cyfeiriodd y Cynghorydd at farwolaeth y cyn cadeirydd Len Williams. Cafwyd ennyd o ddistawrwydd fel arwydd o barch. Y Clerc i anfon cerdyn o gydymdeimlad at ei weddw.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Adroddwyd bod llinellau melyn yn Hen Gei llechi angen trafodaeth bellach, bod i Gyngor Gwynedd un ai gynnal cyfarfod cyhoeddus neu gynnal Astudiaeth. Y Cyngor Cymuned i aros am wybodaeth bellach. Bydd mesuriadau dal gorr yrru ar Ffordd Gaernarfon gan yr Heddlu. Trafodwyd y mater ymhellach a gofynnwyd i'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd am wybodaeth ynglŷn â'r astudiaeth traffig oedd wedi ei addo sawl mis yn ôl. Astudiaeth oedd hwn ynglyn a pharcio a dim ynglyn a gor-yrru. Dywedodd y Cynghorydd na fyddai'r Bragdy yn symud ymlaen a'r cynllun toiledau. Bydd Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad ynglŷn â'r toiledau presennol. Bydd y Cyngor Sir yn torri coed o amgylch y golau ar waelod Allt Penybryn. Cafwyd gwybodaeth bod y Swyddog Emyr Gareth wedi ei hysbysu bod y Cynulliad wedi pasio i ariannu Cynllun atal llifogydd ar Lan y Môr, ond nid oes dyddiad hyd yma i ddechrau ar y gwaith. Hefyd wrth wneud ymchwil i'r cynllun maent wedi dod o hyd i siambr BT ym mhen Dinas y ffordd ac oherwydd hyn ni all parcio fodoli yma. Dywedodd hefyd bod Alan Bowers yn dal i drio cael cyfarfod gyda pherchnogion newydd y Marina ynghylch a'r Maes Parcio lle mae cychod yn cael eu parcio/cadw. Mae diffib wedi ei osod yn yr ysgol. Parcio ar Ffordd Caernarfon wedi bod yn fater o gonsyrn ers rhai blynyddoedd; roedd y Cyngor Sir am wneud cyfrifiad traffig yno, hyd yma nid oes data wedi ei dderbyn. Y Clerc i wneud ymholiadau a'r adran draffig Cyngor Gwynedd Pryder y Cynghorwyr oedd bod gweledded o un cyfeiriad wedi ei rwystro pan mae cerbydau yn parcio cerbydau sydd wedi parcio. Mae yna hefyd lwybr cyhoeddus sydd yn croesi y ffordd ar yr un lleoliad. Mae'r llwybr troed yn gul iawn ac o	**CLERC** **CLERC**

	ganlyniad mae pramiau a cadeiriau olwyn yn gorfod mynd i'r ffordd.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gwariant ac adroddiadau'r Cyngor ar gyfer mis Chwefror 2019. Derbyniwyd y gwariant ac adroddiadau. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir. Amodau gorchwyl ynglŷn ag is-bwyllgorau'r Cyngor. Y Clerc a'r Swyddog Ariannol i gydweithio ar rain a'u hanfon allan i'r aelodau yn ystod y mis. Anfoneb Unllais Cymru wedi ei dderbyn, Cytunwyd iw dalu. Ame Cytundeb BDO gyda Llywodraeth Cymru yn dod i ben ar ol yr archwiliad eleni. Mi fydd y drefn yn dychwelyd i'r hen drefn pan fydd yr archwiliad yn caael ei wneud o fewn y Llywodraeth. Taliad i gynghorwyr – Y Clerc i gadarnhau a rhoi gwybod i'r trysorydd pa aelodau sydd wedi cysyltu i ddweud nad ydynt eisiau taliad. Mi fydd rhaid i'r swyddog Ariannol dalu yr arian i;r cynghorwyr hynny sydd ddimw edi gwneud cais i atal y taliad a hynny cyn diwedd y flwyddyn ariannol.	**CLERC/SWYDDOG ARIANNOL**
4.2	Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am y grantiau ariannol gan Glwb Peldroed Y Felinheli, Parch a'r Eglwys.	
4.3	Tendr Torri Gwair - agorwyd yr unig dendr i ddod i law ynglŷn â'r gwaith i dorri gwair a llwybrau'r Felinheli. Roedd y tendr yn dderbyniol a chadarnhawyd y tendr am y tair blynedd nesaf. Y Clerc i anfon gair at y contractwr llwyddiannus. Gofynnodd y Swyddog Ariannol os yw y pris a roddwyd ar gyfer y llwybrau yn gywir, mae angen sicrwydd bod y pris hwn ar gyfer y ddau doriad.	**CLERC**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror fel rhai cywir.	
5.2	Mater yn codi o'r cofnodion - mae golau solar wedi ei brynu ac mae plat ynghyd a bracet arbennig ar gyfer ei osod hefyd wedi ei gael. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ar y safle yn y dyfodol agos.	**EW/DW**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C19/0210/20/LL - Gosod sustem gwresogi nwy a ffliw allanol- Arvonia, 58 Stryd Bangor, Y Felinheli Ll56 4PZ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.2	C19/0206/20/TC - cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel annedd breswyl defnydd dosbarth C3 - Tŷ gwair, Fferm Parciau, Griffiths Crossing, Caernarfon LL55 1TS **- DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
7.0	**PRIFFYRDD**	
7.1	Mater yn codi - nid oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn os oedd Bin Halen wedi ei osod yn Ger y Nant. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd i gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf ar y mater.	**CLERC-**
7.2	Trafodwyd y mater o broblemau traffig trwy'r pentref pan mae traffig yn cael ei wyro oddi wrth y ffordd osgoi ac i	**CLERC**

	mewn i'r pentref fel y digwyddodd yn ddiweddar. Y Clerc i anfon at yr Heddlu a hefyd Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.	
8.0	**ADRODDIADAU LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
8.1	Cynnigodd y Cynghorydd Nerys John bod pob cynghorydd yn cymeryd rhan mewn o leiaf un is-bwyllgor er mwyn rhannu cyfrifoldebau ymysg aelodau y Cyngor. Cyngorwyr Mei ac Iwan i gytuno i fod ar is-bwyllgorau prosiectau.	
8.1	Materion yn codi - Cysgodfannau, dywedodd y Cynghorydd Nerys John eu bod wedi derbyn pris gan Mr Dafydd Williams am banel polycarbonate o faint 54 x 54 modfedd sef £300 + TAW. Roedd pris o finyl gan Arwyddion Penygroes yn £180.35 am ddau. Roedd y finyl yma hefyd yn wrth losgi. Cadarnhawyd bod y Cynghorydd Nerys John yn symud ymlaen i archebu'r rhain. Y Cynghorydd Casi Roberts i gysylltu â'r ysgol gynradd ar gyfer cael dyluniad. Roedd y Cynghorydd Iestyn Harris hefyd am adrodd ar y mater hwn yng nghyfarfod nesaf y Llywodraethwyr.	**NJ CR/IH**
8.2	Mater yn codi - Safle Bws Aberpwll, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn pris am draed haearn wedi ei galfanu sef £270.50 + TAW. Roedd y pris hwn yn cynnwys dyluniad a'u gwneud yn pwrpasol. Cadarnhawyd i symud ymlaen i archebu'r traed.	**DW**
8.3	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod Gwirfoddolwyr Cymdeithas y Cerddwyr wedi gwneud gwaith clirio ar Lwybr 14 at Bethel. Roedd y gwaith sydd wedi ei wneud yn ardderchog. Dywedodd hefyd bod giât mochyn ger Bryn Cottages wedi ei rhwystro oherwydd bod giat mawr y cae wedi ei dynnu a'i osod ar y llawr. Y Clerc i anfon gair at yr Adran Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd.	**CLERC**
9.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES, PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
9.1	DIM	
10.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
10.1	DIM	
11.0	**PROSIECTAU**	
11.1	Y Cynghorydd Nerys John i gael ymweliad safle gyda Swyddog Caeau Chwarae'r Cyngor Sir.	**NJ**
11.2	Roedd cais wedi dod i law i drefnu dyddiad ar gyfer codi sbwriel o fewn y pentref cyn bod gwair ymylon y ffyrdd yn tyfu'n rhy hir ac yn cuddio'r sbwriel. Y Cynghorydd Casi Roberts i weithredu gyda'r Cynghorydd Sarah Riley i anfon neges i'r gwirfoddolwyr.	**NJ**
12.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
12.1	DIM	
13.0	**ADRODDIAD Y NEUADD**	
13.1	Menai Windows wedi cwblhau'r gwaith ar y ffenestri.	
13.2	Kimberley Gulf wedi cwblhau'r gwaith ar goed y to - bydd y safle bellach yn medru cael ei ddefnyddio	
13.3	Mae angen newid un golau ar wal tu allan Wal y Neuadd oherwydd ei fod yn rhy lachar. Y goleuadau eraill yn iawn.	

13.4	mae angen adroddiad i ddiweddaru ar y gwaith o sychu'r tamp yn rhan gwaelod y Neuadd. Mae pris wedi ei dderbyn gan y pensaer o £350 am adroddiad i ddiweddaru ar y gwaith a hefyd ynglŷn â ffordd ymlaen. Cadarnhawyd derbyn y pris a symud ymlaen a'r gwaith.	**DW**
13.5	Dywedodd y Cadeirydd bod mesuriadau ynglŷn â chanslo defnydd y Neuadd gan ddefnyddwyr yn fanylion hurio'r Neuadd. Dywedodd ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r Clerc i roi sustem mewn lle bod rhaid i ddefnyddwyr lofnodi ffurflen eu bod yn cydnabod yr amodau sydd i hurio'r Neuadd.	**DW/CLERC**
13.6	Mae ychydig o dystiolaeth wedi bod yn ddiweddar o fandaliaeth o amgylch tu allan i'r Neuadd. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn pris am gamerâu CCTV. Roedd wedi derbyn gwybodaeth pa gamerâu a fyddai o ddefnydd i'r Cyngor ac y byddent yn gallu archebu'r rhain eu hunain. Pris y system yn cynnwys camerau oddeutu £500 + TAW Pris gosod y camerâu fyddai £120 + TAW y dydd. Cadarnhawyd symud ymlaen a'r gwaith.	**DW**
13.7	Mae pump cowell oddi ar y waliau'r toiledau angen eu gosod o'r newydd. Byddai rhai dur yn well. Cadarnhawyd i symud ymlaen i'w harchebu a'i gosod.	**DW**
13.8	Dywedodd y Cadeirydd bod cwyn wedi ei dderbyn ar ôl parti yn y Neuadd. Mae'r mater wedi ei ddelio gyda. Mae eglurhad wedi ei anfon ynghyd a'r mesuriadau sydd yn eu lle rhag bod y peth yn digwydd eto.	**CLERC**
13.9	Gwaith ar y drysau tan wedi ei gwblhau. Dwy lechen wedi eu ail osod ar y to.	
13.10	Golau diogelwch wedi ei osod yng ngwaelod y Neuadd.	
13.11	Y Clerc a'r Swyddog Ariannol i gysylltu a Brocer ynni i edrych ar gael contract ynni i'r Neuadd.	**CLERC/Swydd og Ariannol**
14.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
	Gweler eitem 2.0. Mae defib yn cael ei osod ar y toiledau. Ni fydd y gost fel yr amcangyfrif, bydd y pris yn is oherwydd gaith un person fydd.	
15.0	**GWYDNWCH CYMUNEDOL**	
	Dim	
16.0	**GWEFAN**	
16.1	Y Clerc i ddiweddaru'r dogfennau dwyieithog ar y safle.	**CLERC**
17.0	**MATERION AMRYWIOL**	
17.1	Menter y Fic - cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd bod y cynllun edi ei roi o'r neilltu oherwydd datblygiad ar werthiad yr adeilad.	
17.2	Y Clerk a'r Swyddog Ariannol i ymgynghori a'r "Utilities Broker" i ddod o hyd i delerau gwell i'r neuadd.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:20	
Llofnod:		**Dyddiad:**